


**Adroddiad
Blynyddol y
Llywodraethwyr i
Rieni**



2020 ~ 2021

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni 2020/2021

Adroddiad y Llywodraethwyr

Braint a phleser yw eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, a hynny am y tro olaf, wrth gyflwyno i'ch sylw caredig, yr adroddiad hwn o weithgaredd yr ysgol am y flwyddyn a aeth heibio. Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un llawn prysurdeb a gweithgarwch a hynny o dan amodau heriol tu hwnt o ganlyniad i effeithiau Covid-19.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob aelod o staff am eu hymroddiad lwyr i bob agwedd o fywyd yr ysgol a hynny o dan amgylchiadau anodd iawn eleni. Bu'n gyfnod o addasu sylweddol a throedio i dir newydd anghyfarwydd. Heb eu gwaith diflino hwy fe fyddai bywyd academiaidd ac arallgyrsiol y disgyblion dipyn tlotach. Rwy'n siwr y cytunwch i'r disgyblion dderbyn yr addysg orau bosib o dan amgylchiadau anodd, ac hefyd gofal bugeiliol gofalus iawn. Gwn bod gwerthfawrogiad mawr i'r gohebu cyson a fu rhwng yr ysgol a'r teuluoedd dros y cyfnod clo. Bu nifer o'r staff yn cynorthywo hefyd gyda'r Hybiau yn ystod y cyfnod clo yn ogystal â darparu gwersi a bugeilio disgyblion Bro Myrddin. Chwaraeodd yr ysgol gyfan ei rhan yn llawn gan gyfrannu'n helaeth i bob agwedd o fywyd addysg y Sir yn ystod y cyfnod anodd a dryslyd hwn.

Diolch arbennig i'r Pennaeth a'r uwch dîm arwain am lywio'r ysgol drwy flwyddyn unigryw arall o addysg, a hynny o dan amgylchiadau rhywstredig iawn ar adegau. Golygodd hyn oll oriau maith o waith ychwanegol a hynny yn aml yn ystod gwyliau ysgol. Dylsem fod yn falch iawn ohonynt. Diolch hefyd i staff gweinyddol yr ysgol am eu gwaith trylwyr ac i bawb a fu'n cynorthwyo i barato'i'r ysgol ar gyfer ail-agor fel eich bod chi, y rheini yn gwbl dawl eich meddwl bod y gofal gorau posib yn cael ei ddarparu mewn ffurf offer hylendid a systemau a fydd yn sicrhau cadw pellter cymdeithasol, i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel.

Yn ogystal a chanmol y staff, rhaid canmol y disgyblion hefyd am eu llwyddiannau amrywiol, ac am ymateb mor gadarnhaol i'r holl gyfleodd sy'n cael eu cynnig iddynt. Ni fu'r flwyddyn yn hawdd iddynt ond diolch am eu hymateb brwdfrydig a synhwyrol i bopeth a ddararwyd ar eu cyfer. Diolch hefyd am iddynt am eu hamynedd wrth ddychwelyd i'r ysgol ac ufuddhau i'r rheoliadau newydd. Mae ein disgyblion yn ein llenwi â rhyfeddod a blachder yn gyson.

Mae'n ddylestwydd arnaf hefyd i ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth i'r bobl ifanc ac i'r ysgol. Ni fu'r flwyddyn ddiwethaf yn hawdd i chwithau chwaith. Gwn bod llawer o ofid wedi dod i rhan nifer o deuluoedd Bro Myrddin o ganlyniad i Covid-19. Nid tasg hawdd yw magu ieuenctid yn yr oes hon gan bod y disgwiliadau mor uchel, a'r pwysau ar eu hysgwyddau o amryw gyfeiriadau yn medru bod yn drwm iawn ar adegau, ond gwyddom fel ysgol, wrth gyd-weithio â chi'r rieni a gwarcheidwaid, bod modd, gyda'n gilydd, i ni arwain ac annog y disgyblion i dyfu'n oedolion ifanc, boneddigaidd ac aeddfed, gan osod y sail addysgol orau posib ar eu cyfer.

Rydym yn ffodus iawn o gefnogaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae eu gwaith yn allweddol i'r ysgol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith. Gwaetha'r modd bu rhaid gohirio nifer o'r gweithgareddau a drefnwyd oherwydd y cyfnod clo, ond mae ein diolch yr un mor ddiffuant, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio eto yn y dyfodol agos gan fwynhau cyfleoedd i gymdeithasu, a chodi arian ar gyfer addysg y disgyblion.

Diolch hefyd i'm cyd-lywodraethwyr am eu cyfraniad amrhisiadwy i fywyd yr ysgol. Diolch am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb a rithiol. Mae pob llywodraethwr yn ei hystyried hi'n fraint o gael bod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchio yn ei holl lwyddiannau ac yn y modd y mae wedi wynebu'r her dros y misoedd diwethaf.

Daw fy nhymor i fel Cadeirydd i Corff Llywodraethol i ben ym mis Tachwedd 2021. Bu'n fraint ymgymeryd a'r cyfrifoldeb hwn dros y blynyddoedd diwethaf. Dymunaf yn dda i'm holynydd, Luned Thomas yn ystod tymor ei gwasanaeth.

Edrychwn ymlaen at barhau ac adeiladu eto i'r dyfodol ar y seiliau cadarn a osodir yn barhaus gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Dymunwn yn dda i'r staff a'r disgyblion wrth gamu ymlaen i mewn i ddryswch y cyfnod nesaf. Addunedwn i fod yn gefn iddynt bob amser.

Diolch am eich amser

Yn gywir

*Y Parchedig Beti Wyn James BD, MTh
Cadeirydd y Corff Llywodraethol*

Adroddiad Y Pennaeth

Dyma flwyddyn arall na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen yn sicr. Caiff y ddwy flynedd diwethaf eu cofio fel blynyddoedd Covid-19 a'r 'clo mawr.' Pan adroddwyd am y feirws yn Tsieina cyn y Nadolig 2019, doedd neb wedi meddwl am eiliad y byddai'r feirws yn cael effaith fyd-eang. Defnyddiwyd y term 'difyffelyb' sawl gwaith i ddisgrifio'r sefyllfa, term sy'n hollol addas ar gyfer ei effaith ar ysgolion. Bu'r cyfnodau 'clo' yn hollol ddieithr i staff, disgyblion a chithau fel rhieni, a bu'n rhaid addasu'n ddyddiol. Bu'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn fendithiol yn ystod y cyfnod hwn gan ganiatáu i ninnau fel ysgol i fedru cyfathrebu gyda chi fel rhieni a'r disgyblion. Dysgwyd llawer o sgiliau newydd yn ystod y cyfnod a datblygwyd gwytnwch arbennig yn ein staff, ein disgyblion a'n rhieni.

O ran canlyniadau arholiadau bu eleni, fel llynedd, yn flwyddyn arbennig o heriol. Er bod y disgyblion wedi paratoi'n ddiwyd ar gyfer eu harholiadau allanol ni welwyd yr arholiadau hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Bu'r athrawon wrthi yn ddiwyd yn pennu graddau ar gyfer pob disgybl ymhob pwnc yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth a derbyniodd pawb eu graddau haeddiannol yn y pendraw.

Er bod hi wedi bod yn gyfnod clo am lawer o'r flwyddyn fe lwyddwyd, serch hynny, i barhau i gario ymlaen. Er na chafwyd yr un cyngerdd mawreddog na sioe, llwyddwyd i gynnal nifer o ddigwyddiadau. Rwy'n sicr bod yr Eisteddfod Ysgol Rithiol ar Fawrth y 1af wedi bod yn goron ar y cyfan gyda chystadlu brwd am ddiwrnod ar ei hyd a'r cyfan ar-lein o gludwch ein sofffa. Braf hefyd oedd medru cynnal mabolgampau i bob blwyddyn ar ddiwedd yr haf a chafwyd ambell drip. Bu llawer o lwyddiannau hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter, Facebook ac Instagram. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau a digwyddiadau fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog. Llwyddwyd yn ystod y flwyddyn, er waethaf yr holl rwystrau i gasglu bron i £5,000 at achosion dyngarol.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau Llais y Cyngor Ysgol trwy wella ein cynghorau blwyddyn gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddarau ein gwefan yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Yn ystod y flwyddyn diwethaf treialwyd llawer o gynlluniau newydd gan gynnwys noson agored rithiol a chyfarfodydd rhieni ar-lein. Pwy feddyliau y byddai hynny'n bosibl cyn eleni?

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddiflino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisiau a gweithgareddau'r ysgol.

Diolch arbennig hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

*Dr Llinos Jones
Pennaeth*

Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ers 2015. Trwyddi draw, mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn wedi bod yn dda iawn ymhob cyfnod allweddol, gan gynnwys pob un o'r dangosyddion perfformiad yn CA4. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi lleihau yn sylweddol yn y mwyafrif o'r dangosyddion.

A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ers 2015 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoes mae cynlluniau manwl ar y gweill. Mae gwaith y Gweithgor Addysgu a Dysgu wedi datblygu'n aruthrol ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd clir yn ansawdd yr addysgu. Rydym wedi symud ymlaen yn arthurol gyda addysgeg a'r model Dysgu ac Addysgu yn cael ei fireinio a'i addasu nawr ar gyfer gofynion y Cwricwlwm newydd.

A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a gosodwyd targedau pendant. Crëwyd cyfres o ddogfennau data pwrpasol er mwyn gwella ymwybyddiaeth athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr parthed data perfformiad yr ysgol. Mae'r dogfennau yma bellach yn cael eu haddasu'n flynyddol ac yn ran allweddol o'r gwaith rhwng yr adrannau a'r UDA.

A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a ffurfiwyd Cynllun Datblygu Ysgol a Chynllun Datblygu Adran newydd sy'n gosod seiliau cadarn i'w thargedau. Mae'r targedau hyn hefyd yn cael eu hamlygu yn hunanarfarniad yr ysgol ac mae cyswllt pendant iawn rhwng y CDY a'r hunanarfarniad sydd hefyd ar ei newydd wedd.

Aelodau'r Corff Llywodraethol 2020-21

Cadeirydd: Parchedig Beti Wyn James

Is-gadeirydd: Mrs Luned Thomas

Clerc: Miss Siân Thomas, swyddfa@bromyrdin.org

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol:

Pennaeth

6 Rhiant Llywodraethwr

5 Cynrychiolydd yr ALI

2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff

5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

Rhieni Llywodraethwyr *(cyfnod yn dod i ben)*

Mrs Nerys Defis (07.10.22)

Mr Nigel Cooke (04.10.23)

Mr Heulyn Roderick (17.05.24)

Mrs Adele Davies (31.12.24)

Mrs Michelle Llewelyn (31.12.24)

Mrs Tanja Neumayer-James (31.12.24)

Llywodraethwyr Cymunedol *(cyfnod yn dod i ben)*

Mrs Angharad Jones-Leefe (25.03.22)

Mr Elfed Davies (18.01.25)

Ms Catrin James (18.01.25)

Parchedig Beti Wyn James (29.03.25)

Mrs Luned Thomas (29.03.25)

Cynrychiolwyr Athrawon *(cyfnod yn dod i ben)*

Mr Steffan Davies (01.09.23)

Mrs Tracy Jenkins (31.08.25)

Cynrychiolwr Staff *(cyfnod yn dod i ben)*

Mrs Lonwen Bowen (26.05.23)

Llywodraethwyr yr ALI *(cyfnod yn dod i ben)*

Parchedig Tom Defis (28.01.23)

Cynghorydd Cefin Campbell (28.01.23)

Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.24)

Cynghorydd Mair Stephens (25.09.24)

Mr Arwel Lloyd (09.04.25)

Adroddiad ar flaenoriaethau 2020-21

Blaenoriaeth strategol YBM	Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol
Safonau <ul style="list-style-type: none"> Codi safonau mewn pynciau a meysydd penodol Gwella sgiliau llythrennedd y disgyblion (bechgyn yn enwedig) 	<ul style="list-style-type: none"> Cyswllt rheolwr cyswllt gydag adrannau penodol a PA i'w gryfhau gyda chynllun gweithredu i'r adrannau unigol i barhau i'w weithredu 2020-21. Gwella cyngor i ddisgyblion wrth ddewis pynciau a chryfhau cysylltiad gyda hwb Seren Addasu system tracio cynnydd yn sgîl problemau eleni: Gosod targedau unigol yn hytrach na chyfunraddau. Penodi athrawon penodol i gynnal gwersi ymyraeth llythrennedd yn rhan o gynllun 'cau'r bwlch' LICC yn sgîl y feirws Parhau gyda chynlluniau llythrennedd adrannol wrth ddiwygio'r cwricwlwm newydd o ran CA3 Sicrhau bod adrannau CA5 yn datblygu sgiliau llafaredd y disgyblion yn eu gwersi Datblygu dysgu cyfunol er mwyn codi safonau gan edrych ar fodelau posibl i'r dyfodol.
Lles ac agweddau at ddysgu <ul style="list-style-type: none"> Cysoni safonau uchel ymddygiad Datblygu cyfleoedd Llais y Disgybl 	<ul style="list-style-type: none"> Ymchwil gweithredol PA ar ymarfer adferol yn cael ei readru i staff dysgu bl 7 er mwyn treialu'r cynllun. Hyfforddi staff a phenaethiaid blwyddyn i wneud gwell defnydd o dduliau cofnodi a monitro ymddygiad. Ymchwilio i'r defnydd o SIMS fel offer adnabod problemau. Trefnu grŵp llywio o'r cyngor ysgol i rannu syniadau. Addasu protocol ymateb i bresenoldeb isel unigolion er mwyn cwrdd â gofynion newydd y Sir. HMS gwella ymddygiad yn canolbwyntio ar osod patrymau ymddygiad o'r newydd yn dilyn y cyfnod clo. Gwneud awdit o'r holiaduron 'llais y disgybl' ar draws yr ysgol er mwyn ystyried bylchau posibl a mapio'r cyfleoedd. Datblygu'r defnydd o grwpiau ffocws disgyblion i ymateb i feysydd penodol. Datblygu holiadur 'llais y disgybl' a 'llais y rhieni' o ran yr wythnosau clo cyflym.
Addysgu a phrofiadau dysgu <ul style="list-style-type: none"> Paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru Datblygu Cymreictod 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd MDaPh yn cael eu clustnodi ar galendr yr ysgol ac i'w cydlynu gan aelodau o'r UDA yn dilyn y cyfnod clo. Treialu cynlluniau newydd i fl.7 – gwersi Addysg Ariannol, cymorth cyntaf a bwyta'n iach. Creu grwpiau ffocws i dderbyn adborth am y cynlluniau. Diwygio darpariaeth bresennol Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol a DT. Cynnal HMS Uwchradd ar y MDaPh. Sicrhau hyfforddiant priodol ar y cwricwlwm i holl aelodau staff yr ysgol yn dilyn y cyfnod clo Rhoi cyfleoedd priodol i unigolion a grwpiau i wneud ymchwil gweithredol ar y 4 diben a'r MDaPh. Datblygu amgylcheddau dysgu allanol gan ymchwilio i fodelau ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Hybu gweithgareddau hybu Cymreictod drwy gydol y flwyddyn. Cydweithio gyda swyddogion y Sir a CYDAG i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ôl-14. Adolygu Cynllun Gweithredu Siarter Iaith yr Ysgol. Cynnal cyfweiliadau ffocws llais y disgybl i drafod agwedd disgyblion at y Gymraeg
Gofal, cymorth ac arweiniad <ul style="list-style-type: none"> Y bil ADY Hyrwyddo dealltwriaeth o heriau iechyd meddwl a datblygu meddyliau iach 	<ul style="list-style-type: none"> Taith ddysgu ADY i fonitro'r ddarpariaeth bresennol ac ansawdd y ddarpariaeth honno 2020 Adolygu'r defnydd o CA ac amseriad rhaglenni ymyraeth strwythuredig. Creu cynlluniau i gynorthwyo disgyblion ADY sydd wedi syrthio nôl yn ystod y cyfnod clo. Hyfforddi ac uwchsgilio staff ysgol gyfan yn ôl yr angen er mwyn adnabod disgyblion a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w anghenion. Cyflwyno y proffil un tudalen i bob disgybl bl 7 ac 8. Defnyddio offer Arfer yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn (ACU) fel rhan o gyfarfodydd adran, bugeiliol, adolygiadau rheoli perfformiad staff, sesiynau llais y disgybl, templed adroddiadau ac adborth rhieni. Penodi swyddog gweinyddol i'r adran. Monitro'r ddarpariaeth lechyd a Lles bl 7 ac 8 trwy ymweliadau a chyfweiliadau grwpiau ffocws staff a disgyblion. Datblygu mewnbwn y gweithgor lles staff i drafod llwyth gwaith a gwintyllu syniadau ar ddatblygu meddwlgarwch a lleihau straen ar gyfer disgyblion a staff. Creu cynllun gweithredu i ymateb i'r holiadur lechyd a Lles Cenedlaethol a holiaduron dilynol i fesur effaith. Sicrhau bod mwy o staff yn derbyn tystysgrif iechyd meddwl.
Arweinyddiaeth a rheolaeth <ul style="list-style-type: none"> Ymateb i heriau ariannol Datblygu'r ysgol fel Sefydliad sy'n Dysgu Datblygu prosesau hunanarfarnu yr ysgol gyfan 	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud ceisiadau pellach am grantiau posibl. Gweithredu i sicrhau ad-daliadau Covid-19. Defnyddio'r holiadur – ysgol fel sefydliad sy'n dysgu – i adnabod cryfderau a gwendidau a gweithredu ar y canlyniadau. Datblygu arweinyddiaeth trwy gynig secondiadau, prosiectau a chyfrifoldebau penodol. Rhoi cyfleoedd penodol i aelodau staff i wneud ymchwil gweithredol ar feysydd o'u diddordeb. Mireinio calendr hunanarfarnu yr ysgol yn sgîl sefyllfa covid-19. Addasu hunanarfarniad yr ysgol a'r adrannau a chreu CDY a CDA newydd o ran diwyg.

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwerau y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8:55-9:05	Cofrestru		10:20-10:35	Egwyl		12:35-1:35	Cinio
9:05-9:20	Gwasanaeth		10:35-11:35	Gwers 2		1:35-2:35	Gwers 4
9:20-10:20	Gwers 1		11:35-12:35	Gwers 3		2:35-3:35	Gwers 5

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2021-22

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Diwedd	
Hydref 2021	2 Medi	25 Hydref	29 Hydref	21 Rhagfyr
Gwanwyn 2022	4 Ionawr	21 Chwefror	25 Chwefror	8 Ebrill
Haf 2022	25 Ebrill	30 Mai	3 Mehefin	19 Gorffennaf
Dyddiau HMS – 1 Medi; 29 Tachwedd; 8 Ebrill; 1, 18, 19 Gorffennaf				

Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2020:

Mrs Eleri Ellis-Jones, Mr Joseff Rees a Miss Elisabeth Owen – cynllun pontio LICC,
Miss Fflur Rhys – Adran Gymraeg
Miss Catrin Evans – Adran Gymraeg (cyfnod mamolaeth)
Mrs Sian Roberts Jones a Mr Wayne O’Leary – swyddi ‘cau’r bwch’ LICC.

Cysylltiadau â’r gymuned

Eleni, oherwydd y pandemig ni ddefnyddiwyd adeilad yr ysgol o gwbl gan y gymuned oherwydd rheolau Covid-19. Yn anffodus hefyd, ni lwyddwyd i gyfrannu o fewn y gymuned oherwydd y rheolau llym.

Serch hynny, fe lwyddwyd i gadw cysylltiadau agos gyda’n Heddwas Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn ar-lein yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio’n agos iawn gyda’n Penaethiaid Blwyddyn a’r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chynghor parod a’i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol fe fyddai llu o siaradwyr gwadd yn dod i’r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o’r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau. Yn anffodus eleni, oherwydd y sefyllfa, nid yw hynny wedi bod yn bosibl er ein bod wedi llwyddo i gynnal sawl digwyddiad rhithiol.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio’n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy’n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Eleni, bu hi’n flwyddyn wahanol iawn gyda’r Llywodraeth yn cyfrannu tipyn o gefnogaeth mewn grantiau oherwydd Covid-19.

Datganiad Ariannol yr ysgol 2020/21

Gwariant		Cyllideb	Gwirioneddol
	Cyflogau	3,652,435	3,610,441
	Adeiladau	374,940.75	325,392
	Cyflenwadau a Gwasanaethau	357,500.25	418,652
		4,384,876	4,354,485
Incwm		Cyllideb	Gwirioneddol

	Derbynebau Cwsmeriaid	109,992	91,700
	Grantiau'r Llywodraeth	4,297,670	4,794,668
	Grantiau eraill	11,443	35,901
		4,419,105	4,922,268
Gwarged / Diffyg		34,229	567,783

Perfformiad Disgyblion

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19, i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar berfformiad.

Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19 i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar berfformiad.

Cyrchfannau disgyblion

Disgyblion	Bl 11		Bl 12		Bl 13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
	150		95		90	
Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon	106	70.7	88	58.7	-	
Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall	4	2.7	2	2.1		
Parhau mewn addysg llawn amser – coleg	34	22.7				
Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch					83	92.2
Blwyddyn allan					2	2.2
Parhau mewn addysg rhan amser						
Hyfforddiant ieuentid gan gynnwys prentisiaeth			3	3.2	1	
Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru						
Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru						
Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch						
Wedi gadael yr ardal						
Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod						
Swydd	6	4	2	2.1	2	2.2

Presenoldeb

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19 i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar bresenoldeb.

Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Seilir ein rheolau ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgywylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod cyfnod o 'fyfyrion' awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn cyfnod o 'fyfyrion' awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir y disgybl ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a Diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a

Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth. Mae ffensys diogelu newydd o gwmpas yr ysgol ers Medi 2018 sy'n sicrhau diogelwch y safle ac rydym wedi symud ymlaen i roi ffensys o gwmpas rhai o ffiniau'r ysgol yn ogystal.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Gwyddoniaeth ym mlwyddyn 13 mae dewis iaith yn bodoli am flwyddyn arall yn unig oherwydd y polisi iaith presennol. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol wedi gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwmm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisïau

Adolygwyd holl bolisiau yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2020-21

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ochr yn ochr â'u cyfoedion trwy weithredu darpariaeth ysgol gyfan. Er i ddisgyblion dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd rhai unigolion yn cael eu tynnu allan o ddsbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau penodol megis sgiliau emosiynol a chymdeithasol, ffisio, trefn a blaenoriaethu a llythrennedd. Gwneir hyn ar sail profion safonol, gwybodaeth o'r ysgolion gynradd, adborth rhieni ac athrawon ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg neu'r


gwasanaeth iechyd.

Lle nad yw'r cynnydd yn ddigonol, efallai na fydd dysgu ac addysgu da, gan gynnwys gwahaniaethu ac ymyriadau safonol rheolaidd wedi'u targedu neu addasiadau rhesymol, yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae'n ddigon posibl y bydd dysgwyr o'r fath yn cael eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac y bydd angen i'r ysgol gymryd camau ychwanegol neu wahanol i sicrhau cynnydd.

Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo/ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae gan blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu:

- os yw'n cael anhawster **syllweddol** fwy i ddysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill sydd o'r un oedran, neu
- os oes ganddo **anabledd**, yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol.

O dan y system ADY newydd, ar gyfer unrhyw ddysgwr y nodwyd bod ganddo ADY, bydd angen i'r ysgol greu a chynnal **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol i ddiwallu'r angen a aseswyd yn cael ei ddarparu.



Rydym ar hyn o bryd yn mynd trwy'r broses o benderfynu pa ddisgyblion oedd wedi bod ar yr hen gofrestr AAA, sydd bellach yn gallu cael mynediad i ddysgu trwy ddarpariaeth ysgol gyfan. Hefyd, pa ddisgyblion bydd angen Cynllun Datblygu Unigol. Gall fod gan berson ifanc anhawster neu anabledd dysgu nad yw'n galw am DDdY. Mewn achos felly, ni ystyrir bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Mae'n bwysig nodi hefyd na fydd pob anhawster neu anabledd dysgu sy'n deillio o gyflwr meddygol yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Fel rhan o drawsnewid ADY, rydym yn symud at ymarfer ysgol gyfan gynhwysol gan ganolbwyntio eleni ar y canlynol:

- Proffil personol unigol i bob disgybl bl.7, 8 a 9 – dogfen fyw gall disgyblion addasu pan fo angen
- Amserlen weledol i ddisgyblion bl.7 cyfan
- Ymyriadau ar gael i bawb. Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr adran gan gynnwys gweithdai Literacy Toolbox, Get spelling, Llythrennau a Synau, Touch Type, ELSA, Talkabout for teenagers a chymorth unigolion

Mr Dyfed James, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y ddarpariaeth ysgol gyfan ac unigolion yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol. Mr Heulyn Roderick sydd wedi ei enwi fel llywodraethwr cyswllt yr adran.

Derbynia nifer fawr o ddisgyblion drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Mae rhain yn adlewyrchu ffordd normal o weithio yn y dosbarth ac o ganlyniad i ganlyniadau profion safonedig, barn athrawon ac asiantaethau allanol a thystiolaeth o dasgau disgyblion. Eleni, mae amryw o ddisgyblion Bro Myrddin yn derbyn y trefniadau mynediad canlynol:

- Darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur
- 25% o amser ychwanegol
- Ystafell arall
- Cyfnodau egwyl
- Chromebook fel ffordd normal o gofnodi
- Anogwr
- Ysgrifennydd
- Ffont mwy o faint

Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pump aelod o staff wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Eyrn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Mr Steffan Davies, Mrs Eirlys Thomas a Mrs Rhian Carruthers, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuenctid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselyddion. Gwelwyd 55 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Zena Cooper a Mrs Emma Evans eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

Chwaraeon

Mae'r llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir llu o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canwio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foeli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn

cwblhau Gwobr Efydd Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Yn anffodus, oherwydd y pandemig, ni lwyddwyd i barhau gydag amserlen llawn o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir lluo o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Yn arferol cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math. Nid ydym eleni, oherwydd y pandemig, wedi medru sicrhau gymaint o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion yn anffodus. Serch hynny, amlygir rhai o'r gweithgareddau allgyrsiol posibl ar ein gwefannau cymdeithasol ac ar ddiwedd yr adrodd yma.

Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Er bod eleni yn wahanol iawn i'r arfer bu'r pwyllgor yn brysur hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo a llwyddwyd i gasglu £4,716.

Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau. Mae cynlluniau i addasu dau o'n blociau toiledau ar gyfer Haf 2021.

Nodiadau ar Ysgolion Iach


Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwygo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Holiadur i Rieni

Yn ystod ein nosweithiau rhieni rydym yn gofyn i rieni lenwi holiadur a ddosberthir ar y noson honno. Yn anffodus eleni, cynhaliwyd ein nosweithiau rhieni ar-lein ac, felly, canlyniadau holiadur 2019-20 sydd isod.



1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr Ysgol
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae'r staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
7. Mae'r gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae'r ysgol yn gwrandao ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
14. Rwy'n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy'n teimlo'n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i'r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.

Rhestr o deithiau, digwyddiadau a llwyddiannau 2020-21

Medi 2020 – Tachwedd 2020

Teithiau

Oherwydd y sefyllfa ni drefnwyd unrhyw deithiau.

Digwyddiadau'r ysgol:

Yr Arfordir i'r Arwyr – Ar ddiwedd tymor yr Haf, yn ystod y cyfnod clo, fe drefnodd y pwyllgor dyngarol daith gerdded a seiclo nodedig er mwyn codi arian i ysbyty Glangwili. Llwyddwyd i gasglu £2,500.

Prif swyddogion 2020-2021 – Llongyfarchiadau i Anwen Thomas a Trystan Davies ar gael eu hethol yn brif swyddogion yr ysgol. Eu dirprwyon bydd Catrin Owen, Lowri Powell, Owen Cray a Cai Phillips.

Aelodau Cyngor Ysgol 2020-2021 – Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol am eleni. Blwyddyn 7 – Martha Morgan a Ben Morgan; Blwyddyn 8 – Betsan Jones a Tomos Axford; Blwyddyn 9 – Rosie Davies a Dion James; Blwyddyn 10 – Mati Morgan a Steffan Huw Davies; Blwyddyn 11 – Mali Jones a William Gledhill; Blwyddyn 12 – Megan Bryer, Dafydd Waters, Betsan Campbell ac Aled Havard; Blwyddyn 13 – Caitlin MacKay, Catrin Owen, Cai Phillips, Anwen Thomas a Trystan Davies. Dymuniadau gorau iddynt am y flwyddyn.

Bore Coffi MacMillan – Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobl i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith. Trefnwyd y Bore Coffi yn yr ysgol amser cinio dydd Iau yn y babell allanol, Hydref 15fed ar gyfer y staff. Gyda thâl mynediad yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus codwyd y swm o £200. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth Diolchgarwch – I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol ar-lein. Cafwyd cyflwyniad wedi ei recordio gan y Pennaeth a phenillion a lluniau Diolchgarwch gan Tudur Dylan Jones.

Ysgol Eton – Yn ystod y Cyfnod Clo, manteisiodd 23 o ddisgyblion Chweched Dosbarth yr ysgol ar gynnig arbennig gan Ysgol Eton i astudio modiwlau ar lein. Daeth llwyddiant i Owen Cray, Anwen Thomas, Lowri Powell, Rufus Cox, Marek Bennett, Carys Tattersall, Cerys Bennett, Dafydd James, Marek Cole a Lauren Mote yn y modiwl "Making an Impact".

Cwrs Tsienieg – Llongyfarchiadau i bedwar disgybl o'r 6ed dosbarth a lwyddodd i basio'r cwrs Tsienieg a drefnwyd gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant dros y cyfnod clo. Y disgyblion hynny oedd Deryn Cressey-Rodgers, Dylan Walters, Joshua Morbey a Ryan Thomas.

Llwyddiant wrth ysgrifennu traethawd – Llongyfarchiadau pellach i Deryn Cressey-Rodgers o flwyddyn 13 a gafodd ganmoliaeth aruthrol yng nghystadleuaeth traethawd Coleg y Drindod Caergrawnt. Cyrhaeddodd ei thraethawd y 15 uchaf allan o 106 o ymgeiswyr.

Wythnos Fiolegol – Eleni trefnwyd wythnos fiolegol wahanol iawn yn ystod wythnos Hydref y 5ed – wythnos fiolegol rithiol gyda phob un o'r gweithgareddau yn digwydd naill ai adref neu ar-lein.

Noson Agored 2020 – Yn anffodus, gan nad oedd hi'n bosibl agor ein drysau i'r cyhoedd fe drefnwyd noson agored rithiol ar gyfer rhieni blwyddyn 5 a 6.

Llwyddiannau chwaraeon

Gemau – Yn anffodus, nid oes unrhyw gemau wedi eu chwarae yn ystod y tymor oherwydd y pandemig.

Tachwedd 2019 – Chwefror 2020

Teithiau:

Oherwydd y sefyllfa ni drefnwyd unrhyw deithiau.

Digwyddiadau'r ysgol:

Cystadleuaeth Fathemateg – Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol o flwyddyn 11 a fu'n rhan o gystadleuaeth allgyrsiol Mathemateg, sef 'The Intermediate Mathematical Challenge' dan ofal yr UKMT (UK Maths Trust). Aur: Carwyn Axford a Frank Morgan a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn rownd nesaf y gystadleuaeth. Arian: Steffan O'Leary, Griff James a Caleb Evans. Efydd: Walter Hellier, Guto Phillips, Alex Mote ac Aidan Murray. Llongyfarchiadau hefyd i griw o ddisgyblion o fl.13 ar eu llwyddiant yn yr un gystadleuaeth ond ar gyfer y disgyblion hŷn. Dyma'r disgyblion – Ieuan Din, Owen Cray, Molly Cressey-Rodgers, Rhodri Peters, Jonathan Walters, Ryan Thomas, Megan Tyler, Joseff Griffiths, Jack Burns a Rhys Homfray. Lwyddodd pedwar ohonynt i dderbyn tystysgrif arian, sef Ieuan Din, Owen Cray, Molly Cressey-Rodgers a Rhodri Peters. Llongyfarchiadau gwresog iddynt.

Llwyddiant cerddorol – Llongyfarchiadau i Siwan Mair Jones bl.10 ar ennill y 3ydd wobwr yng nghystadleuaeth yr Unawd 12-16 oed yn The Welsh North American Association ac Undeb Cymru a'r Byd

Pythefnos Masnach Deg – bu Pwyllgor Eco yr ysgol yn rhan o gystadleuaeth wedi ei threfnu gan Gyngor Sir Gâr. Y gystadleuaeth oedd i ddylunio cwpan yn cynnwys logo Masnach Deg. Y tri buddugol oedd Sofia Garcia, Morgan Wiseman Rees a Rowan Fisher – llongyfarchiadau enfawr iddynt.

Senedd Cymru – cafodd disgyblion Bl 11/12/13 y cyfle yn ystod wythnos Mawrth y 1af i gael sesiwn arlein gyda swyddogion addysg Senedd Cymru i wella dealltwriaeth disgyblion o etholiad mis Mai.

Ffug-gynhadledd y Cenhedloedd Unedig – yn ystod wythnos Mawrth y 1af bu disgyblion Bl 12 Gweidyddiaeth yn rhan o Ffug-Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig wythnos. Trefnwyd y gynhadledd gan y Ganolfan Gymreig am Faterion Tramor a Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Thema'r gynhadledd oedd yr amgylchedd a chynrychiolodd y disgyblion America, China a Mozambique.

Yr Adran Gymraeg – Yn ystod y tymor hwn cynhaliwyd llu o weminarau amrywiol a buddiol i ddisgyblion CA4 a CA5 yr Adran Gymraeg. Ar 26ain o Ionawr bu disgyblion Blwyddyn 12 a 13 yn rhan o sesiynau adolygu Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Darparwyd sesiynau rhyngweithiol ar ramadeg, y chwedl Branwen a sgiliau gwerthfawrogi gwaith llenyddol. Waldo Williams a'i gerdd Preseli a gafodd sylw gan Mererid Hopwood a Phrifysgol Aberystwyth ar y 12fed o Chwefror. Yn ystod mis Mawrth trefnir gweminarau gan ERW ar gyfer CA5. Ar yr 22ain o Fawrth bydd cyfle i ddisgyblion Bl 13 wrando ar Caryl Lewis yn trafod Martha, Jac a Sianco. Yr Athro Sioned Davies fydd yn annerch athrawon y Gymraeg sy'n arbenigo ym maes y Chwedlau ar y 23ain o Fawrth ac Eurig Salisbury fydd yn trafod y gerdd Mis Mai a Mis Ionawr gan Dafydd ap Gwilym ar y 25ain o Fawrth.

Matrix Challenge Wales – daeth llwyddiant i Jack Gleeson yn ennill y gystadleuaeth hon.

Capteiniad llys 2021-22 – Penodwyd y capteiniaid a'r is-gapteiniaid llys canlynol dros Google Forms. Llongyfarchiadau iddynt: Hengwrt – Elen Davies, Daniel Evans; Cerys Brown, Lewis Gibbin. Hergest – Leia Thomas, Aled Havard; Betsan Thomas, Sion Jones. Llwydiarth – Elicia Quick, Dafydd Waters; Megan Bryer, Dafydd Jones. Peniarth – Betsan Campbell, Llew Richards; Elain Owen, Iolo Dafydd, Harri Tomos Jones.

Her yr Arfordir – Casglwyd £2,416.67 at Apêl Covid-19 Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Coeden Nadolig yn lliwiau'r ysgol – diolch i aelodau'r Pwyllgor Dyngarol am drefnu coeden Nadolig arbennig ar gyfer codi calon y disgyblion adeg y Nadolig ac i Dafarn y Railway Nantgaredig am noddi.

Plant mewn Angen – Codwyd cyfanswm o £1,725 ar gyfer elusennau plant yn ystod diwrnod Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am gyfrannu.

Llwyddiannau chwaraeon.

Gemau – Yn anffodus, nid oedd unrhyw gemau wedi eu chwarae yn ystod y tymor oherwydd y pandemig.

Mawrth 2019 – Gorffennaf 2019

Digwyddiadau'r ysgol:

Steddfod y Sgrin – Eisteddfod Ysgol Mawrth y 1af - Eleni am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, cynhaliwyd Steddfod y Sgrin, diwrnod cyfan o gystadlu a gweithgareddau dros Teams a Google Classrooms. Cafwyd sesiynau amrywiol – Clocsffit gyda Tudur Phillips, coginio, dwbl gyda Rhys Padarn, cyd-ganu gyda'r Fenter Iaith a llond lle o gystadlaethau. Dyma ganlyniadau'r dydd: Tarian gwaith cartref: Llwydiarth, Tarian cystadlaethau llwyfan: Peniarth, Tarian y Llys buddugol: Llwydiarth. Enillwyr y gwobrau llenyddol; Y Gadair Gymraeg – Gwenno Roberts, Y Gadair Saesneg – Gwion Davies. Yng nghystadleuaeth y Goron Gymraeg a Saesneg, enillwyd y ddwy wobwr gan Siwan Matthews. Dyma'r tro cyntaf yn hanes Bro Myrddin i ddisgybl gyflawni'r dwbl. Braff oedd gweld y cystadlu hefyd mewn pwt ar raglen Ffeil S4C nos Lun, Mawrth y 1af.

Cymorth Cristnogol – Cynhaliwyd sesiynau i godi ymwybyddiaeth o Apêl Cymorth Cristnogol yn mewn gwasanaethau boreol. Cyfrannwyd £250 i'r apêl gan y pwyllgor dyngarol.

Neges Ewyllys Da yr Urdd – Rhannwyd neges Ewyllys Da yr Urdd gyda disgyblion a staff yr ysgol yn ystod cyfnod gwasanaeth dydd Mawrth 18fed o Fai. Bu rhai disgyblion hefyd yn rhan o'r fideo i godi ymwybyddiaeth.

Codi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl – Trwy gydol mis Ebrill bu'r disgyblion yn derbyn gwybodaeth am ffyrdd o leihau straen trwy gyfrwng cyflwyniadau yn ystod gwasanaethau boreol. Cafwyd diwrnod Gwisg Ein Hunain ar ddydd Gwener 14eg o Fai lle bu'r disgyblion a'r staff yn gwisgo dillad lliwgar ac yn casglu arian tuag at elusennau Iechyd Meddwl. Llwyddwyd i godi dros £1,000 at elusennau.

Llysgennad iechyd meddwl Prydain, Dr Alex George – Roedd hi'n bleser ar y 26ain o fis Mai i gael croesawu Dr Alex George, llysgennad iechyd meddwl ieuencid Prydain i ymuno gyda'r chweched dosbarth mewn sesiwn holi ac ateb. Cafwyd cyflwyniad didwyll iawn gan y gŵr ifanc sydd ar hyn o bryd yn feddyg yn Llundain.

Prosiect pleidlais – Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 7 a Miss Elin Jones yn sgwrsio gyda lola Wyn am Brosiect Pleidlais @childcomwales ar raglen Dros Frecwast Radio Cymru.

Grŵp ymgynghori Cymwysterau Cymru – Llongyfarchiadau i Cai Phillips bl.13 a Megan Bryer bl.12 ar gael eu derbyn yn aelodau o Grŵp Cynghori i Ddysgwyr gyda Cymwysterau Cymru. Derbyniwyd 61 o geisiadau gan unigolion felly dymuniadau gorau i'r ddau.

Noson Wobrwyo 2021 – Digwyddiad blynyddol yng nghalendr yr Ysgol erbyn hyn yw'r Noson Wobrwyo; cyfle i ni groesawu cyn-ddisgyblion a'u teuluoedd yn ôl i'r Ysgol wrth i ni ddod at ein gilydd yn neuadd yr Ysgol ar nos lau olaf Tymor y Gwanwyn a hynny er mwyn cydnabod llwyddiant academiaidd ac allgyrsiol ein myfyrwyr. Ychydig yn wahanol i'r arfer unwaith eto eleni, dim siaradwr gwadd, dim neuadd lawn, dim cyfle i gymdeithasu ar ôl dathlu llwyddiannau'r disgyblion. Fodd bynnag, yn wyneb y sefyllfa bresennol, fe aethom ati i drefnu Noson Wobrwyo Rithiol, y cyntaf erioed yn hanes yr ysgol, felly drwy gyfrwng clipiau fideo gan Dr Llinos Jones ac Anwen Thomas a Trystan Davies y Prif Swyddogion, aethpwyd ati i ddathlu'r ddefod arbennig hon.

Felly, er mwyn rhannu'r llwyddiannau hyn gyda chi, dyma enillwyr y gwobrau am eleni;

- Gwobr ariannol Bro Myrddin am llwyddiant academiaidd yn yr arholiadau Safon Uwch – Ifan Rogers ac Evan Burke.
- Gwobr ariannol Beti Hughes am llwyddiant academiaidd yn Safon Uwch a chyfraniad i fywyd diwylliannol yr Ysgol – Mabon Evans.
- Tlws Gareth Evans am gyfraniad i fywyd diwylliannol yr ysgol – Alaw Evans a Celyn Yate.
- Tlws Gareth Evans am ymdrech gyson ym mlwyddyn 11 neu 13 – Harri Griffiths a Mathew Griffiths.
- Gwobr St Peter's Players am gyfraniad i weithgareddau drama – Lois Campbell a Lowri Wyn Davies.
- Tlws Megan a Myfanwy am waith creadigol o safon uchel – Megan Ruth Evans.
- Tlws Rhian Denby Jones am yr ymdrech orau yn TGAU Hanes – Megan Bryer.
- Tlws Yr Adran Fusnes – Gwenann Walters.
- Tlws Hugh Griffiths am yr ymdrech orau yn TGAU Gwyddoniaeth – Cerys Brown.
- Gwobr Ieithoedd Tramor Modern am y perfformiad gorau mewn Ieithoedd Tramor Modern ym mlwyddyn 11 neu 13 – Caitlin Hayes.
- Gwobr Disgybl y Disgyblion i'r disgybl greodd yr argraff fwyaf ar ei gyd-ddisgyblion – Gwenllian Howells.
- Gwobr Capel Y Priordy am ymdrech arbennig mewn Addysg Grefyddol – Amy Flattery. Roedd y wobwr ariannol newydd yn rhoddedig gan Gapel y Priordy a diolch iddynt am eu haelioni.
- Tlws Andrew Rees i gerddor neu gerddorion gorau'r ysgol – Alaw Evans.
- Tlws yr Adran Gerdd am y perfformiad gorau yn TGAU Cerddoriaeth – Gareth Jones a Gwenllian Howells.
- Tlws Margaret Morris am y perfformiad gorau yn Addysg Gorfforol gan ddisgybl yn ml.13 – Mabon Evans a Leah Thomas.
- Tlws yr Adran Addysg Gorfforol am y perfformiad gorau yn TGAU Addysg Gorfforol – Betsan Campbell a Lucy Davies.
- Tlws Elin Ruth Jenkins am y perfformiad gorau mewn pêl-rwyd – Leah Thomas
- Tlws Non Jenkins am y perfformiad gorau mewn nofio – Millie Patterson
- Tlws Peter Hughes Griffiths am ei wasanaeth i bêl-droed o fewn yr ysgol – Mabon Evans.
- Tlws Emlyn Schiavone am wasanaeth i rygbi o fewn yr ysgol – Tomos Daniels.
- Tlws Rheon ac Eiliw James am gyfraniad i Athletau yn yr ysgol – Eva Edwards.

Yn ychwanegol i'r uchod cyflwynwyd gwobr newydd sbon arall eleni, sef Gwobr Cymreictod Grav. I nodi pen-blwydd Ray Gravell yn 70 oed eleni, mae'r ysgol wedi cydweithio gyda'i deulu i ffurfio'r wobwr arbennig hon. Y beirniaid oedd Manon a Gwennan Gravell a Ken Owens. Enillydd cyntaf y wobwr oedd Gwenllian Jones o flwyddyn 10. Llongyfarchiadau i bawb. Ymfalchïwn yn llwyddiant ein disgyblion a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Llwyddiant cerddorol – Llongyfarchiadau i Siwan Mair Jones bl.10 ar ennill y 3ydd wobwr yng nghystadleuaeth yr Unawd 12-16 oed yn The Welsh North American Association ac Undeb Cymru a'r Byd.

Llwyddiannau chwaraeon:

Athletwraig Elitaidd – Llongyfarchiadau i Cerys Davies bl.13 ar dderbyn cydnabyddiaeth Athletwraig Elitaidd gan Sports Cymru i'w galluogi i ddychwelyd i hyfforddiant dan do ar gyfer paratoi ar gyfer Pencampwriaethau'r Byd WFNBT.

Athletau Cymru – Llongyfarchiadau i Frank morgan, Dafydd Jones a Liam Edwards enillwyr 2,000 medr Athletau Cymru dan 17 a dan 20. Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Bowen a Jake Bowen enillwyr 2,000 medr athletau Cymru dan 15.

Cap pêl-droed – Llongyfarchiadau i Emily Thomas ar ennill Cap Cymru gyda Charfan Merched Cymru Dan 17 yn dilyn ennill 3 chap yn ystod tymor 2019/2020.